Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

# Adroddiad Blynyddol

## Mai 2018 – Mawrth 2019

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys


**3** Amdanom ni

**4** Datganiad y Prif Weithredwr

**5** Y tîm


**6** Adolygu'r flwyddyn

**8** Cymdeithion, hen a newydd

**10** Datganiadau ariannol

**11** Y flwyddyn i ddod

**12** Ein galwad i weithredu

# Amdanom ni

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod Cymru'n lle gwych i fod yn arweinydd addysgol, ac mai trwy arweinyddiaeth ragorol yn ein holl ysgolion a lleoliadau addysgol y gallwn gyflawni ein huchelgais feiddgar ar gyfer dysgwyr.

Adeiladwyd yr Academi Arweinyddiaeth ar weledigaeth gref, gyda chyfres o werthoedd craidd yn sail iddi ac egwyddorion a ddatblygwyd ar y cyd gan y sector. Wrth galon y weledigaeth hon y mae ymrwymiad i sicrhau bod gan bob arweinydd yn y sector addysg fynediad i gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth cydlynol, hygyrch o safon uchel sy'n diwallu eu hanghenion ble bynnag y bônt, ar ba gam bynnag o'u gyrfa y maent, waeth beth fo'u huchelgais. Bydd ein dull o ddatblygu arweinyddiaeth yn grymuso arweinwyr yn y system i gryfhau gwaith partneriaeth o fewn a rhwng ysgolion, gan ddatblygu proffesiwn sy'n ymddiddori mewn ymchwil a'i lywio gan dystiolaeth.

**Yn ffocysu ar arweinyddiaeth dysgu**

**Meithrin gallu**
- Galluogi arweinyddiaeth ragorol i ffynnu o fewn y system
- Grymuso datblygiad y gweithlu a chynllunio gweithlu strategol ar gyfer arweinyddiaeth
- Sicrhau cyflenwad o arweinwyr i'r dyfodol

**Cynhwysol a chydweithredol**
- Ym mherchnogaeth y sector ar gyfer y system addysg gyfan - 'ein hacademi'
- Datblygu diwylliant o arweinyddiaeth gydweithredol, ac arweinyddiaeth system
- Yn cefnogi tegwch mynediad i'r ddarpariaeth datblygu arweinyddiaeth fwyaf effeithiol

**Ysbrydoli a symbylu**
- Hyrwyddo datblygiad arweinyddiaeth wych sy'n ffocysu ar y dyfodol ac yn berthnasol i heddiw
- Adeiladu ar arfer dda mewn arweinyddiaeth lle mae'n bodoli eisoes, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, mewn addysg ac mewn sectorau eraill
- Rhan gydlynol o'r agenda ddiwygio ehangach

**Ansawdd ac effaith**
- Deall y gwahaniaeth mae arweinyddiaeth yn ei wneud
- Arwain meddwl a datblygiadau ar gyfer dyfodol arweinyddiaeth
- Wedi'i danategu gan ddysgu o brofiad a dysgu damcaniaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil

**Cefnogi dibenion y cwricwlwm yng Nghymru lle mae plant a phobl ifanc yn datblygu i fod yn:**

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

# Datganiad y Prif Weithredwr

**Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol cyntaf hwn gan Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru. Mae'r ffaith fod gennym Academi yng Nghymru sy'n ymroddedig i Arweinyddiaeth Addysgol yn destun dathlu ynddo'i hun – corff cenedlaethol sy'n cydnabod pwysigrwydd canolog arweinwyr ac arweinyddiaeth yn y gwaith o ddarparu profiad dysgu o'r radd flaenaf i'n plant a'n pobl ifanc.**

Fe'i lansiwyd ym mis Mai 2018 gan Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, ac mae datblygiad yr Academi Arweinyddiaeth yn tystio i waith y Bwrdd Cysgodol i ddechrau a gadeiriwyd gan Ann Keane, ac yna o fis Gorffennaf 2018, i waith Bwrdd Cyfarwyddwyr yr Academi dan gadeiryddiaeth Dr Sue Davies. Gofynnwyd i'r Bwrdd ddatblygu'r Academi fel cwmni cyfyngedig trwy warant sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru. Ni chrëwyd yr Academi i fod yn ddarparwr arall eto o waith datblygu arweinyddiaeth ond disgwylir iddi ddarparu gweledigaeth ar gyfer arweinyddiaeth addysg sy'n gynhwysol a chydweithredol, sy'n ysbrydoli ac yn ysgogi, gydag ansawdd ac effaith a'r angen i adeiladu capasiti ar hyd a lled y system gyfan yn sail iddi. Flwyddyn yn ddiweddarach, fel y dywed ein Cadeirydd, '*mae'r Academi'n sefydliad strategol sy'n cyfrannu at ddatblygu galluoedd proffesiynol arweinwyr ar draws y system addysg, gan fynegi a gweithredu gweledigaeth ar gyfer arweinyddiaeth yn y system honno a bod yn ystyriol o arferion gorau gartref ac yn y maes rhyngwladol.*'

Mae yna arferion rhagorol o ran datblygu arweinyddiaeth ledled Cymru ac mae proses gymeradwyo'r Academi'n sicrhau y gellir cydnabod, dathlu a rhannu'r ddarpariaeth honno. Mae'r broses ei hun yn drylwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n rhoi sicrwydd i arweinwyr ysgolion ynghylch ansawdd y ddarpariaeth y maen nhw neu eu staff yn ymgymryd â hi. Hefyd mae wedi rhoi cyfle i ddarparwyr arweinyddiaeth ystyried eu harferion eu hunain ac i ddatblygu profiadau dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr sydd wedi'u gwreiddio yn y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth gan alluogi ysgolion i ddatblygu fel sefydliadau dysgu gwirioneddol. Mae angen hyn i gyd er mwyn cefnogi arweinwyr ein hysgolion i ddod yn ymarferwyr gwirioneddol fyfyrgar, sy'n ymgysylltu a chylch o gamau gweithredu ac adolygu, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweledigaeth o gwricwlwm newydd a arweinir gan ddibenion ar gyfer Cymru.

Yn ogystal â chymeradwyo'r ddarpariaeth gyfredol orau, mae'r Academi wedi cydnabod ein bod angen arloesedd ym maes datblygu arweinyddiaeth hefyd – parodrwydd i wneud pethau'n wahanol. Mae'r ddarpariaeth sydd wedi datblygu ar gyfer ein llwybr arloesedd wedi gwneud hyn ac edrychwn ymlaen at allu cymeradwyo'r waith hwn yn llawn ar ôl i'r dystiolaeth gael ei chasglu a'i chyflwyno. Mae'r Academi'n hynod ddiolchgar i'r darparwyr sydd wedi gweithio mewn partneriaeth â ni – yn ysgolion, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg uwch, darparwyr y sector preifat ac eraill. Maen nhw i gyd wedi coleddu'n gweledigaeth ar gyfer arweinyddiaeth addysgol a chwarae rhan hollbwysig yn ein gwaith, yn yr un modd â'n holl randdeiliaid amrywiol sy'n gwneud cyfraniad hanfodol bwysig hefyd wrth sicrhau ein bod yn gwrando ar leisiau ymarferwyr ar draws y system.

Mae'r weledigaeth honno'n ymwneud hefyd â grymuso arweinwyr addysgol i weithio a gweithredu yn y rhyngwyneb rhwng polisi ac ymarfer. Dyma pam mae'r Academi wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu ein Cymdeithion a'u gwaith fel arweinwyr system mewn lleoliadau, yn hytrach na phenodi tîm mewnol mawr o staff. Maen nhw'n benaethiaid sy'n gweithio gyda'r Academi, yn ogystal â rheoli eu hysgolion, gan roi i ni'r gallu i gyflawni ein gweledigaeth. Nhw yw'r cyfrwng sy'n rhoi bywyd i'r Academi ac yn siarad gyda gwir lais ymarfer cyfredol.

Hoffwn ddiolch i'r tîm o staff y cefais y fraint o'u harwain dros y flwyddyn ddiwethaf – maen nhw wedi gwneud cynnydd eithriadol mewn byr o dro ac edrychwn ymlaen at ddyfodol o ddatblygu ffrydiau gwaith pellach ym meysydd ymchwil a chynllunio'r gweithlu'n strategol.

> **Rydym yn cefnogi arweinwyr ein hysgolion i ddod yn ymarferwyr gwirioneddol fyfyrgar, sy'n ymroi i gylch o weithredu ac adolygu.**

# Y Tîm




**Huw Foster Evans**
Prif Weithredwr




**Tegwen Ellis**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd



**Dr Chris Lewis**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Polisi ac Ymchwil a Chynllunio'r Gweithlu yn Strategol





**Kirsty Payne**
Rheolwr Busnes




**Olivia Stemmer**
Cynorthwyydd Gweinyddol

# Adolygu'r flwyddyn




## Sefydlu'r Academi Arweinyddiaeth

Lansiwyd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn swyddogol ym mis Mai 2018, gan gyhoeddi Huw Foster Evans yn Brif Weithredwr cyntaf. Ers hynny, mae tîm yr Academi Arweinyddiaeth wedi cyrraedd ei lawn faint drwy benodi dau gyfarwyddwr cynorthwyol, rheolwr busnes a chynorthwyydd gweinyddol.

Cyfarfu bwrdd y cyfarwyddwyr, sy'n cynnwys ymarferwyr ac arbenigwyr yn eu priod feysydd, am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf gan ddarparu cyfeiriad strategol a llywodraethu cadarn ar gyfer yr Academi Arweinyddiaeth. Lluniwyd y cynllun corfforaethol gan dîm gweithredol yr Academi Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd 2018, ar ôl cyhoeddi'r llythyr cylch gwaith cyntaf gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC. Fe'i cymeradwywyd gan y bwrdd a'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2019. Mae'r cynllun yn cwmpasu tair blynedd gyntaf yr Academi Arweinyddiaeth, ac yn sicrhau ei bod wedi'i sefydlu fel partner pwysig yn y sector addysg ac yn cyflawni'r blaenoriaethau sydd yn y llythyr cylch gwaith, sef:

- Datblygu'r Academi Arweinyddiaeth yn sefydliad strategol gyda diwylliant cadarnhaol a chynhwysol a llywodraethu cadarn;
- Cyfrannu at ddatblygu galluoedd proffesiynol arweinwyr cyfredol a rhai'r dyfodol ar draws y system addysg trwy ddarparu cydlyniant a sicrwydd ansawdd ar gyfer y casgliad o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth addysgol sydd ar gael yng Nghymru;
- Gweithredu fel arweinydd syniadau; datblygu, mynegi a gweithredu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru.


Sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid a chynrychiolwyr undebau bywiog a brwd sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ddarparu llais gwybodus ar gyfer y system addysg gan gefnogi a herio gwaith yr Academi, a sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y sector. Mae'r Academi wedi sicrhau ei lle yn yr haen ganol hefyd, gan ddatblygu a chynnal cysylltiadau buddiol ag asiantaethau partner ar draws Cymru.

Datblygwyd gwefan yr Academi ynghyd â chyfres o sianelau cyfryngau cymdeithasol er mwyn cynnwys a darparu gwybodaeth i'r sector a rhanddeiliaid ehangach. Mae'r holl blatfformau'n cael eu dilyn yn dda gyda chynnydd yn eu defnydd o fis i fis yn ystod y flwyddyn.

## Arweinyddiaeth Medddwl

Ym mis Rhagfyr 2018, comisiynodd yr Academi ddarn o waith gan Gyngor y Gweithlu Addysg i ystyried y tueddiadau recriwtio a chadw ar draws ysgolion Cymru. Caiff y data ei ddadansoddi gan y cyfarwyddwr cynorthwyol ar gyfer polisi, ymchwil a chynllunio'r gweithlu'n strategol, a benodwyd ym mis Mawrth 2019, a bydd yn llywio swyddogaethau'r Academi yn y meysydd hyn.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddatblygu a rhannu ymchwil sydd wedi'i meincnodi'n rhyngwladol ac arferion gorau mewn arweinyddiaeth addysgol, sefydlodd yr Academi Gonsortiwm Arweinyddiaeth y Tair Gwlad ar y cyd â chydweithwyr o Goleg Arweinyddiaeth Addysgol yr Alban a Chanolfan Arweinyddiaeth Ysgolion Iwerddon. Cyfarfu'r consortiwm am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2019 a threfnwyd calendr o ddigwyddiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae aelodau'r consortiwm wedi cytuno hefyd i gymryd rhan ar banelau cymeradwyo ar gyfer yr alwad ddiweddaraf ac i ddarparu adolygiad o'r broses gan gymheiriaid allanol.




## Cymdeithion

Cyn sefydlu'r Academi, mae'r cohort cyntaf o 12 Cydymaith wedi'u penodi gan y bwrdd cysgodol i gefnogi swyddogaethau craidd yr Academi a bod yn llais ymarfer drosti ar draws y sector. Mae'r Cymdeithion yn benaethiaid profiadol a hynod effeithiol sydd wedi ymrwymo i ddatblygu gallu arweinyddiaeth yn eu lleoliadau eu hunain ac ar draws Cymru.

Fis Gorffennaf, gwahoddwyd y Cymdeithion i gyflawni comisiwn gan uwch swyddogion Llywodraeth Cymru i archwilio sut gall arweinwyr mewn systemau addysgol alluogi cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n gwella lles a chyflawni canlyniadau gwell i bawb. Fel rhan o'u gwaith casglu tystiolaeth, aethant i Ganada a'r Ffindir er mwyn astudio'n fanwl systemau addysg sydd wedi'u cydnabod yn rhyngwladol fel rhai hynod lwyddiannus.

Cyhoeddwyd yr adroddiad a'i lansio yn Abertawe ym mis Mawrth 2019 mewn digwyddiad gydag arweinwyr ysgolion ac addysg bellach yn bresennol ynghyd â chynrychiolwyr o'r haen ganol, sefydliadau addysg uwch, sefydliadau undebol, llywodraethwyr, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Mae'r cohort cyntaf o Gymdeithion wedi parhau eu gwaith comisiwn ers y lansiad, gan drafod argymhellion yr adroddiad gydag ymarferwyr a chasglu adborth i lywio'r cyfnod 'i weithredu'.

Yn fuan ar ôl lansio'r adroddiad comisiwn, penododd yr Academi ei hail gohort o Gymdeithion gan ddilyn proses recriwtio drylwyr. Cynrychiolir y pedwar rhanbarth yn y cohort newydd yn ogystal ag ysgolion Cymraeg ac ysgolion ffydd ar draws lleoliadau babanod, cynradd, ac uwchradd.

## Cymeradwyo a'r Llwybr Arloesedd

Gan adeiladu ar waith y bwrdd cysgodol mae'r Academi wedi datblygu ymhellach ac wedi mireinio'r broses gymeradwyo er mwyn sicrhau y gall gydnabod y ddarpariaeth datblygu arweinyddiaeth o ansawdd uchel sy'n cael ei chyflawni ledled Cymru.

Yn ystod ei blwyddyn gyntaf o weithredu, mae'r Academi wedi cymeradwyo pedwar darn o ddarpariaeth datblygu arweinyddiaeth a gyflwynwyd gan y Consortia Addysg Rhanbarthol a darparwyr preifat. Agorodd y drydedd alwad am gymeradwyo ym mis Mawrth a datblygwyd amserlen ar gyfer galwadau yn y dyfodol.

Yn dilyn diwedd yr ail alwad am gymeradwyo, cynhaliodd staff yr Academi a Chymdeithion waith craffu llawn ar y broses a'r meini prawf er mwyn sicrhau ei bod yn addas i'r diben a bod y darparwyr i gyd yn ei deall yn iawn. Canlyniad hyn oedd ychwanegu adran newydd o feini prawf sy'n archwilio'r cyd-destun polisi Cymreig yn benodol, gan gynnwys ein Cenhadaeth Genedlaethol, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Law yn llaw â'r drydedd alwad am gymeradwyo, lansiodd yr Academi ei Llwybr Arloesedd a fydd yn cefnogi darparwyr i greu dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu arweinyddiaeth addysgol. Bydd y llwybr hwn yn gyfrwng i'r Academi gynnig cyllid i ddarparwyr ddatblygu eu syniadau a chasglu tystiolaeth o effaith yn y gobaith y bydd y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo yn y dyfodol.

# Cymdeithion - Carfan 1



Christine Jackson



Clive Williams



Emma Coates



Gill Ellis



Gwyn Tudur



Huw Powell



Jan Waldron



Janet Hayward



Jeremy Griffiths



John Kendall



Karen Lawrence



Sue Roberts

# Cymdeithion - Carfan 2


Karen Wathan


Tania Rickard


Sarah Coombes


Llew Davies


Kelvin Law


Suzanne Sarjeant


Trefor Jones


Paul Keane


Roger Guy


Richard Monteiro


Ian Gerrard


Damien Beech

# Datganiadau Ariannol

| C ardystiad YFRIF ELW A CHOLLED AR GYFER Y CYFNOD O 8 MAI 2018 TAN 31 MAWRTH 2019 | |
|---|---|
| | 2019<br>£ |
| Trosiant | 390,700 |
| Cost Gwerthiannau | (20,268) |
| Gwarged Gros | 370,432 |
| Treuliau Gweinyddol | (104,348) |

Deilliodd y canlyniadau uchod o weithrediadau parhaus. Nid oes gan y cwmni unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig ar gyfer y cyfnod ac eithrio'r canlyniadau uchod.

Buddsoddwyd y gwarged gweithredol yng ngweithrediadau'r flwyddyn ganlynol (2019/2020)

| MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2019 | |
|---|---|
| | 2019<br>£ |
| **Asedau Sefydlog**<br>Asedau Diriaethol | 24,927 |
| **Asedau Cyfredol**<br>Dyledwyr<br>Arian yn y Banc ac mewn Llaw | 236,219<br>7,594<br>**243,813** |
| **Credydwyr:** Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | (2,657) |
| Asedau **cyfredol net** | 241,156 |
| Asedau **Net** | 266,083 |
| **Cyfalaf ac wrth gefn**<br>Cyfrif elw a cholled | 266,083 |
| Cyfanswm Ecwiti | 266,083 |

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r darpariaethau arbennig sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n destun y trefniadau cwmnïau bach yn Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd gan y Bwrdd ar 10 Medi 2019 a llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:



Dr S Davies (Cyfarwyddwr)

# Edrych tua'r dyfodol

Carfan gyntaf o brosiectau arloesol wedi'u hariannu

Galwadau cymeradwyo 3, 4 a 5 i gynnwys amrywiaeth ehangach o gamau gyrfaol

Sefydlu CARFAN 2

Sioeau teithiol ledled Cymru i greu 'ein cynllun ar gyfer gweithredu' o gomisiwn Carfan 1

Symposia rhyngwladol i drafod canfyddiadau ymweliadau rhyngwladol

Cynhadledd arweinyddiaeth genedlaethol gyntaf

Bwrsariaethau ymchwil i'w darparu i arweinwyr ysgolion

Dechrau comisiwn Carfan 2...

Beth yw rôl Arweinyddiaeth Addysgol wrth wireddu'r weledigaeth o Gymru sydd â diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu?



Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales
CROESO!
MAE CYFRIFOLDEB I NI, FEL ARWEINWYR I DDATBLYGU'R SYSTEM
CLIVE WILLIAMS
FOCUS
ANGHENION ARWEINWYR
HUW FOSTER EVANS
CONGRATULATIONS
ON THE LAUNCH OF THE REPORT!
KIRSTY WILLIAMS
I WANT TO HEAR THE FEEDBACK ON WHAT PEOPLE THINK
THE REPORT WILL SUPPORT QUALITY LEADERS MOVING FORWARD
COMMIT
TO PLAYING YOUR PART!
JEREMY GRIFFITHS
THE INTERNATIONAL STAGE IS WATCHING!
YSGOL GYNRADD
"Glyn Dŵr
Ti yw'n Arwr ni
COLLABORATE
and
PARTNER
WITH PEOPLE



ALL TO ACTION
AD I WEITHREDU
ARGYMHELLION
RECOMMENDATIONS
HIGH QUALITY
"ENSURE PROFESSIONAL LEARNING IS CONSISTENT ACROSS WALES WITH A HIGH-QUALITY OFFER THAT RECOGNISES THE LINGUISTIC AND CULTURAL DIVERSITY OF OUR COUNTRY"
"POSITIVELY ENCOURAGE THE SYSTEM TO ALLOW LEADERS TO EXERCISE PROFESSIONAL AUTONOMY IN THEIR APPROACHES TO ENABLING COLLABORATIVE LEARNING AND WELLBEING"
MY PROFESSIONAL AUTONOMY
"ENSURE LEADERS ARE ENABLED TO EFFECTIVELY & CONFIDENTLY SUPPORT THE WELLBEING OF OUR YOUNG PEOPLE BY WORKING IN CLOSE PARTNERSHIP WITH OTHER AGENCIES"
"TO IMPROVE WELL-BEING & PROFESSIONAL LEARNING WE SHOULD ACCELERATE THE CURRENT MOVEMENT AWAY FROM HIGH STAKES ACCOUNTABILITY ARRANGEMENTS AND ENCOURAGE A MOVE TOWARDS COLLABORATIVE RESPONSIBILITY"
COLLABORATION
ENGAGE THE VOICE
GYDA EIN GILYDD!
SEE YOURSELF AS ENTITLED TO PROFESSIONAL LEARNING
OWN THE PROCESS THAT WILL REALISE THE RECOMMENDATIONS.
KEVIN PALMER
LLWYNDERW
"THIS IS ME!"
WITHOUT LEADERS REFORM CAN'T BE POSSIBLE
INSPIRING LEADERS YSBRYDOLI ARWEINWYR!
#ouracademy
Dr Sue Davies
Darlun gan / Visual by EleanorBeer.com 2019